



Mr Hywel Wyn Jones BA (Hons), BTP, MRTPI
Mr Richard Duggan BSc (Hons), DipTP, MRTPI
Arolygwyr Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn
Cyngor Gwynedd
Swyddog Rhaglen
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

01/09/2016

Annwyl Arolygwyr

Archwiliad Annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ymysg swyddogaethau statudol y Comisiynydd mae rhoi cymorth i unrhyw berson, cyflwyno sylwadau i unrhyw berson a rhoi cyngor i unrhyw berson. Cyflwynaf y sylwadau yn y llythyr hwn yn unol â'r swyddogaethau hynny.

Mae cwmni Horizon wedi nodi yn ei ddatganiad ar gyfer gwrandawriad cyntaf yr archwiliad ei farn bod '*elfennau o'r Cynllun sy'n ymwneud ag amddiffyn yr iaith Gymraeg yn anghyson a'r dull a nodir mewn polisi cenedlaethol, ac felly'n methu prawf cadernid 1 ym Mholisi Cynllunio Cymru7 a CE18 yn y Cynllun ei hun*'. Sail yr honiad hwn, yn ôl datganiad Horizon, yw bod elfennau o'r cynllun yn anghyson â pharagraff 4.1.2 Nodyn Cyngor Technegol 20 (2013) ("TAN 20").

Gosodir polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd tir yng Nghymru o fewn Polisi Cynllunio Cymru. Darparu cyngor ar sut i gyflawni'r polisi hwnnw mae nodiadau cyngor technegol Llywodraeth Cymru. Ni ellir dadlau felly bod cynnwys Cynllun Datblygu Lleol yn anghyson â pholisi cenedlaethol ar gynllunio yng Nghymru ar y sail bod anghysondeb rhwng y Cynllun a nodyn cyngor technegol. Mae'n werth nodi serch hynny bod TAN20 yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd, er mwyn ei gryfhau yn unol â'r darpariaethau newydd ar gyfer y Gymraeg ym maes cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Diwygiwyd Polisi Cynllunio Cymru ym mis Ionawr eleni, gan ymgorffori nodau llesiant sydd bellach yn sail i bolisiau'r Llywodraeth, gan gynnwys y nod o weld '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*'. Pwysleisir ym Mholisi Cynllunio Cymru y dylai polisiau cynllunio lleol gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg lle'n bosibl ac osgoi effeithiau negyddol

4.13.4 Dylai fod yn nod gan awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer tai sydd wedi eu dosbarthu'n eang ac sy'n cael eu datblygu'n raddol, gan ystyried gallu ardaloedd a chymunedau gwahanol i gymathu'r datblygiadau hynny **heb effeithio'n andwyol ar sefyllfa'r Gymraeg**¹. Lle bo modd, dylai'r system gynllunio geisio creu amodau sy'n ffafriol i ddefnydd o'r Gymraeg.

Ar sail hynny, credaf bod yr elfennau perthnasol o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn yn gyson â'r polisi cenedlaethol ar ddefnyddir tir yng Nghymru ac anghytunaf â datganiad Horizon i'r gwrthwyneb.

Gwerthfawrogaf eich ystyriaeth i'r sylwadau hyn wrth gynnal eich archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

¹ Pwyslais yr awdur